
Hawdd ei Deall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwneud y gwaith o gasglu’r Dreth Gyngor yn deg ac yn hawdd ei reoli

## Ffurflen ymateb




Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae’n fersiwn hawdd ei deall o ‘**Gwella’r gwaith o weinyddu a gorfodi’r Dreth Gyngor yng Nghymru**’.

**Ebrill 2025**

# Am y ffurflen ymateb yma




Darllenwch y brif ddogfen o'r enw **Gwneud y gwaith o gasglu'r Dreth Gyngor yn deg ac yn hawdd ei reoli**.



Yna, atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb yma. Anfonwch y ffurflen yma yn ôl i ni erbyn **23 Gorffennaf 2025**.



**Ebost:**

Rydych chi'n gallu llenwi'r ffurflen yma ar eich cyfrifiadur a'i hanfon drwy e-bost i: CTaNDR.Ymgyngoriadau@llyw.cymru



**Neu ei hargraffu a'i phostio i:**

Polisi'r Dreth Gyngor

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ




## Gwahanol iaith neu fformatau:

Os ydych chi eisiau'r ddogfen yma mewn iaith neu fformat gwahanol, cysylltwch â ni yn:

**Cyfeiriad:** Polisi'r Dreth Gyngor
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Ebost:** CTaNDR.Ymgyngoriadau@llyw.cymru




Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosybols 403527247

## Sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth




Darllenwch "**sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth**". Mae'r ddogfen yma'n dweud wrthych chi sut fyddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn breifat.

# Cwestiynau



## Amdanoch chi

**1. Ym mha ardal cyngor ydych chi'n byw? Dewiswch 1 opsiwn.**

- [ ] Ynys Môn
- [ ] Gwynedd
- [ ] Conwy
- [ ] Sir Ddinbych
- [ ] Sir y Fflint
- [ ] Wrecsam
- [ ] Powys
- [ ] Ceredigion
- [ ] Sir Benfro
- [ ] Sir Gaerfyrddin
- [ ] Casnewydd
- [ ] Ddim yn berthnasol
- [ ] Abertawe
- [ ] Castell-nedd Port Talbot
- [ ] Pen-y-bont ar Ogwr
- [ ] Bro Morgannwg
- [ ] Rhondda Cynon Taf
- [ ] Merthyr Tudful
- [ ] Caerffili
- [ ] Blaenau Gwent
- [ ] Torfaen
- [ ] Sir Fynwy
- [ ] Caerdydd
- [ ] Mae'n well gennych chi beidio â dweud




**2. Ydych chi erioed wedi cael trafferth talu'r dreth gyngor neu wedi bod yn hwyr gyda'ch taliadau Treth Gyngor?**

Do ☐

Naddo ☐



**Os ydych chi wedi ateb Do i gwestiwn 2, wnaethoch chi ofyn am help neu gyngor? Dewiswch bob opsiwn sy'n berthnasol:**

Cefais help a chyngor gan fy nghyngor lleol ☐

Cefais gymorth a chyngor gan asiantaeth gynghori, fel Cyngor ar Bopeth ☐

Doeddwn i ddim yn gwybod bod help ar gael ☐



Cefais help a chyngor o rywle arall, dywedwch ble:



Doeddwn i ddim eisiau help na chyngor, dywedwch pam wrthyn ni:



Mae’n well gennych chi beidio â dweud

# Cwestiynau am ein syniadau a'n cynlluniau newydd

## Hysbysiadau atgoffa



**Darllenwch dudalen 18 o'r brif ddogfen.**

Rydyn ni eisiau i gynghorau bob amser anfon o leiaf 1 hysbysiad atgoffa pan fydd taliad treth gyngor yn cael ei fethu..



**3. Ydych chi'n cytuno â'n syniadau ar gyfer hysbysiadau atgoffa?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ysgrifennwch eich sylwadau yn y blwch:

## Hysbysiadau terfynol



**Darllenwch dudalen 19 o'r brif ddogfen.**

Rydyn ni eisiau i gynghorau bob amser anfon hysbysiad terfynol os ydy taliad yn cael ei fethu ar ôl anfon o leiaf 1 hysbysiad atgoffa.

Dim ond pan fydd mwy na 41 diwrnod wedi mynd heibio ers methu'r taliad mae modd anfon yr hysbysiad terfynol. Rhaid bod mwy na 14 diwrnod wedi mynd heibio ers anfon yr hysbysiad atgoffa diwethaf hefyd.



**4. Ydych chi'n cytuno â'n syniadau ar gyfer hysbysiadau terfynol?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ysgrifennwch eich sylwadau yn y blwch:

## Pan fydd cartrefi'n cael cais i dalu'r swm llawn



**Darllenwch dudalen 20 o'r brif ddogfen.**

Mae'n well i gartrefi gadw i fyny â'u taliadau treth gyngor i osgoi dyled. Fe ddylen nhw gysylltu â'u cyngor cyn gynted â phosib, cyn methu taliad.

Rydyn ni eisiau gwneud newid lle na ddylid gofyn i gartrefi dalu'r swm llawn nes bod o leiaf 62 diwrnod wedi mynd heibio. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod 21 diwrnod wedi mynd heibio ers anfon yr hysbysiad terfynol.



**5. Ydych chi'n cytuno â'n syniad i roi mwy o amser i'r cartref dalu'r swm llawn ar ôl yr hysbysiad terfynol?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ysgrifennwch eich sylwadau yn y blwch:

# Gorchymyn atebolrwydd




**Darllenwch dudalen 21 o'r brif ddogfen.**

Rydyn ni'n awgrymu bod cynghorau'n gallu mynd i'r llys am orchymyn atebolrwydd 1 diwrnod ar ôl i'r swm llawn fod yn ddyledus. Fe fydd hyn o leiaf 63 diwrnod ar ôl y taliad cyntaf sydd wedi cael ei fethu.



**6. Ydych chi'n cytuno â'n syniadau ar gyfer pryd mae cynghorau'n gallu mynd i'r llys am orchymyn atebolrwydd?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ysgrifennwch eich sylwadau yn y blwch:

## Cael cyngor a chymorth



Rydyn ni eisiau rhoi digon o amser i bobl gael help os ydyn nhw'n cael trafferth talu eu treth gyngor. Rydyn ni'n meddwl bod 63 diwrnod yn ddigon o amser. Fe fydd hyn yn helpu pobl i siarad â'r cyngor a chael cyngor.



**7. Ydych chi'n cytuno â'n syniad i roi mwy o amser i bobl gael help?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn siŵr | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |



Dywedwch wrthyn ni pam rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno:

# Canllawiau arferion da i gynghorau




**Darllenwch dudalennau 22 i 24 o'r brif ddogfen.**

Mae pob cyngor yng Nghymru yn dilyn y Protocol Treth Gyngor, sy'n rhoi cyngor ar sut i helpu pobl.

Rydyn ni eisiau creu mwy o ganllawiau i gynghorau. Y nod ydy gwneud yn siŵr bod y dreth gyngor yn cael ei chasglu'n deg ar draws Cymru.



**8. Ydych chi'n cytuno â'n syniad i gael canllawiau arferion da?**

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Ysgrifennwch eich sylwadau yn y blwch:



**9. A oes unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am y newidiadau rydyn ni am eu gwneud ar gyfer casglu'r Dreth Gyngor sydd heb ei thalu?**

Ysgrifennwch eich sylwadau yn y blwch:

# Yr iaith Gymraeg

**10. Sut ydych chi'n meddwl mae'r newidiadau newydd yn gallu effeithio ar y Gymraeg?**

Er enghraifft, a fyddan nhw'n helpu pobl i ddefnyddio mwy neu lai ar y Gymraeg?




11. **Ydych chi'n meddwl ein bod yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i'r system dreth gyngor a fyddai'n helpu:**

- **Pobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg.**
- **Cefnogi'r Gymraeg a'r Saesneg i fod yn gyfartal.**
- **Lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg.**




Diolch am ateb y cwestiynau yma.